

# PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

12 Rhagfyr 2018

Yn Bresennol: Cynghorydd S Yelland (Y Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)  
Cynghorydd ML Evans, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd PJ  
Morgan a Mrs J James.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.50am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd K Doolin, Dr R Plummer, Mr A E Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox.

## 2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain o Fedi 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain o Fedi 2018.

## 4. Safleoedd Morol Ewropeaidd o amgylch Arfordir Sir Benfro

Roedd yr adroddiad a ysgrifennwyd gan y Swyddog Polisi Cadwraeth yn nodi cyfraniad yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i reoli Safleoedd Morol Ewropeaidd o amgylch Arfordir Sir Benfro. Yn y cyfarfod, ategwyd y trosolwg hwn gan gyflwyniad gan Sue Burton, Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro, oedd yn canolbwyntio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro.

Eglurodd bod y safle, a ddynodwyd yn 2004, yn safle mawr, tua dwywaith maint y Parc oedd wedi'i ddynodi ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Roedd ei gwaith yn canolbwyntio ar reoli hamdden, ac roedd hi wedi cymryd rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu Cod Morol Sir Benfro. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd casglu abwydydd heb ei reoleiddio wedi bod yn broblem benodol ac wedi achosi dirywiad yn y cynefin, a bod cod ymddygiad yn cael ei ddatblygu i fod yn is-ddeddf ar hyn o bryd; y gobaith oedd y byddai sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru yn mynd â'r maen hwn i'r wal. Dywedodd yr Aelodau bod casglu gwymon wedi dod yn fwyfwy poblogaidd gyda grwpiau yn cymryd peth wmbredd o wymon ar y tro. Eglurodd Sue Burton bod yr Awdurdod, oherwydd ei fod yn prydlesu'r blaendraeth, wedi rhoi rhai trwyddedau ar gyfer casglu gwymon ond bod rhai pobl wedi llithro drwy'r rhwyd ac yn casglu yn ystod y nos. Ychwanegodd Rheolwr y Gwasanaethau Parcmyn bod 3 o drwyddedau masnachol wedi cael eu rhoi a bod gofyn i'r ymgeiswyr



ddangos na fyddai unrhyw niwed yn cael ei achosi, a bod angen cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymhlith y prosiectau eraill y bu Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro yn ymwneud â hwy oedd Menter Peilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro, Adfywio Wystrys Brodorol, ac Archwilio'r Ddyfrffordd am Fygythiadau Llygredd Amgylcheddol, sef prosiect gwyddoniaeth dinesydd oedd yn mesur nitradau a ffosffadau mewn ffynonellau dŵr croyw sy'n llifo i'r ddyfrffordd.

Gan ddiolch i Sue Burton am ei chyflwyniad, roedd gan yr Aelodau ddi-ddordeb i wybod pam nad oedd Sir Benfro gyfan yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac a oedd digon yn cael ei wneud i ddiogelu'r amgylchedd morol. Dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau bod ffiniau'r Ardal Cadwraeth Arbennig wedi'u dewis i gwmpasu'r prif nodweddion ond bod y dewis yn fympwyol i raddau. Credai bod wastad lle i wella yn y gwaith cadwraeth o ddydd i ddydd ac y gellid datblygu cysylltiadau cryfach o ran gweithio mewn partneriaeth ac o ran cyhoeddusrwydd.

Roedd yr Aelodau hefyd am wybod beth fyddai'n digwydd i gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit, a dywedwyd wrthynt y byddai'r cyfarwyddebau yn parhau ac na fyddai llai o fesurau diogelu, ond bod llai o eglurder ynghylch sut y byddai'r cyfarwyddebau yn cael eu gorfodi. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod gwahaniaeth rhwng yr hyn a ganfyddir fel tirweddau daearol a thirweddau morol gan na allwch weld yr amgylchedd morol yn hawdd. Hefyd, pysgodfeydd oedd yn derbyn sylw yn bennaf gan adran Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru, gan fod pysgota yn werth £20 miliwn i economi Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yr amharoddrwydd i fuddsoddi mewn rheoli morol yn gwneud synnwyr economaidd gan fod twristiaeth bywyd gwylt hefyd yn hanfodol bwysig, a'r gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cryfhau eu hymrwymiad i gadwraeth morol. Gobaith yr Aelodau oedd y gellid dwyn pwysau ar y ddau sefydliad i roi mwy o flaenoriaeth i'r mater hwn. Roeddent hefyd wedi holi am sbwriel/llygredd morol, ac atebodd y swyddogion bod nifer o brosiectau wedi'u datblygu, gan adeiladu ar yr ymwybyddiaeth a godwyd gan raglen ddogfen Blue Planet, a'r gobaith oedd y gellid gwneud mwy o waith ar y cyd i gydlynu'r prosiectau hyn yn y dyfodol.

## **NODWYD.**

[Gyda chytundeb y Cadeirydd, daethpwyd â'r eitem ganlynol ymlaen ar yr agenda gan fod rhaid i'r Cynghorydd M Evans adael y cyfarfod yn gynnar.]



## 5. Adolygu'r Ddarpariaeth Parcmyn yr Haf Gogledd a De

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau'r Parcmyn adolygiad i'r Aelodau o dymor yr haf 2018. Cafwyd adborth positif i'r ddarpariaeth o ddau barcmon dwyieithog - un yn y Gogledd a'r llall yn y De - gan ymwelwyr a busnesau a sefydliadau lleol. Roedd y nod wedi bod yn ddeublyg, sef ymgysylltu ag ymwelwyr, a bu 2600 o'r cyfryw achosion o ymgysylltu, a rhan o hyn oedd darganfod beth oedd pobl yn ei wybod am y Parc Cenedlaethol fel y gellid diwallu eu hanghenion. Nodwyd, ar ôl rhoi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau, bod gwahanol weithgareddau wedi bod yn llwyddiannus mewn gwahanol leoedd gan fod proffil yr ymwelwyr yn y gogledd a'r de o'r sir wedi profi'n eithaf gwahanol.

Hefyd roedd y Parcmyn wedi gweithio gyda busnesau, gan roi taflenni iddynt ar gyfer eu gwesteion, a dosbarthwyd 130 o becynnau gwybodaeth drwy'r e-bost. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Parcmyn bod y swyddi wedi cyd-fynd yn dda â'r prosiect 'Golwg ar y Parc/Parkwise' a bod hyfforddiant wedi'i roi i staff Canolfannau Croeso ac i fusnesau, gan gynnwys y Garreg Las a Chaffi Môr. Roedd yn fuddiol bod pob person mewn swyddi sy'n dod wyneb yn wyneb ag ymwelwyr yn cael cymaint o wybodaeth â phosibl y gellid ei drosglwyddo wedyn i'r cyhoedd, gyda'r Parcmyn yn chwarae rhan ddefnyddiol yn hyn o beth.

Credai'r Aelodau ei bod yn bositif bod y Parcmyn yn gallu gweithio yn y Gymraeg a bod meithrin yr iaith yn fuddiol iawn. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r recriwtio yn parhau ar y sail honno bob blwyddyn gan fod natur dymhorol y swyddi yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai'r Parcmyn yn dychwelyd y flwyddyn ganlynol. Llongyfarchodd yr Aelodau y Swyddogion ar y penodiadau, a dywedwyd bod brwdfrydedd ac arbenigedd Parcmyn yr Haf wedi ennyn brwdfrydedd ymhlith y trigolion lleol a'r twristiaid fel ei gilydd.

Awgrymodd yr Aelodau bod angen 'brand' ei hun ar yr Awdurdod, yn wahanol i frand trefi megis Dinbych-y-pysgod neu Drefdraeth, er mwyn crisialu neges yr Awdurdod. Roeddent hefyd wedi nodi y byddai ymwelwyr gynt yn cynllunio eu harhosiad ymlaen llaw. Fodd bynnag, y duedd bellach oedd i bobl wneud penderfyniad ar y diwrnod, a manteisiodd y Parcmyn ar hyn drwy dargedu pobl â gweithgareddau oedd yn addas ar gyfer y lleoliad penodol hwnnw.

### **NODWYD.**

*[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Evans gan adael y cyfarfod yr adeg hon.]*

## 6. Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a Chytundebau Creu Llwybrau Cyhoeddus

Roedd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy wedi cyflwyno adroddiad er gwybodaeth i ddiweddarau'r Aelodau ar faterion Gorchmynion Llwybrau



Cyhoeddus a Chytundebau Creu Llwybrau Cyhoeddus. Cadarnhaodd bod hysbysiad cau a hysbysiad cau 3 wythnos hefyd wedi'u rhoi ers ysgrifennu'r adroddiad, a bod yr hysbysiad cau 3 wythnos yn ymwneud â chaniatâd cynllunio. Roedd gwaith ar y gweill ar gytundeb creu llwybr cyhoeddus ac ar nifer o orchmynion gwyr. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn ar gyfer y gorchmynion yn rhwystredig o lafurus oedd wedi arwain at ôl-groniad mawr, a Swyddogion Mynediad o bob cwr o'r wlad yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i symleiddio'r gweithdrefnau.

Barnai'r Aelodau bod yr adroddiad yn ddiddorol ac roeddent am wybod a oedd cynllun gweithredu ar gael ar gyfer y dyfodol. Cadarnhaodd y swyddog nad oedd unrhyw gynllun gweithredu ffurfiol ar gael gan fod gorchmynion creu yn bŵer oedd yn agored i'r Awdurdod yn hytrach na dyletswydd. Fodd bynnag roedd prosesu gorchmynion oedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a llwybrau yr oedd rhaid eu dargyfeirio oherwydd difrod llifogydd/stormydd yn cael blaenoriaeth. Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am y gwaith aruthrol a wneir gyda thirfeddianwyr ar y llwybrau yn ardaloedd Trefdraeth a Nanhyfer yn ogystal â Little Haven a Choedwig Haroldston. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'n trosglwyddo'r sylwadau hyn i'r Rheolwyr Wardeniaid a'u timau.

## **NODWYD.**

### **7. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31 Hydref 2018**

Roedd yr adroddiad perfformiad a roddwyd gan y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018-19, oedd ei hun yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rai setiau data o ddiddordeb arbennig gan gynnwys penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn argymhelliad y Swyddog; holodd yr Aelodau pam fod hyn yn goch yn hytrach na melyn, ac eglurodd y Swyddog bod hyn yn darged Llywodraeth Cymru ac y gallai ychydig o benderfyniadau olygu methu â chyrraedd y targed. O ran y nifer o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd, roedd hyn yn parhau i fod yn is na'r targed, ac er nad oedd hwn yn ddangosydd Llywodraeth Cymru, byddai'r ffeiliau yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn i weld a oedd patrwm yn datblygu. Hefyd cadarnhawyd bod Gorfodaeth mewn gwell sefyllfa i wynebu'r dyfodol gan fod disgwyl i'r gwaith o gael gwared â'r ôl-groniad gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd rhai Aelodau eu bod wedi derbyn adborth negyddol gan nad oedd datblygwr gwefan lleol wedi'i ddewis i ddatblygu'r safle newydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi defnyddio'r broses caffael GwerthwchiGymru a bod y broses briodol wedi'i dilyn gyda



pherson allanol wedi'i ddefnyddio i ddilysu hyn. Nodwyd bod y contract brandio wedi'i ddyfarnu i gwmni lleol.

Nododd yr adroddiad bod cwmp yn nifer y Wardeniaid Gwirfoddol oedd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, oedd yn peri pryder i'r Aelodau. Fodd bynnag dywedodd y swyddog y byddai recriwtio gwirfoddolwyr newydd yn cael ei wneud drwy'r prosiect Llwybrau fyddai'n cynnig mwy o gyfleoedd.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Gronfa Datblygu Cynaliadwy bellach yn cael ei gweinyddu gan Planed, a gofynnodd yr Aelodau sut fyddai hyn yn gweithio. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai penderfyniadau yn parhau i gael eu gwneud gan y Pwyllgor SDF ac y byddai'r trefniadau newydd yn cael eu monitro'n ofalus.

Yn olaf, gofynnodd un Aelod am ddiweddariad ar y cynllun tywydd garw gan nad oedd y gwaith wedi'i ddechrau eto, ac eglurodd y Swyddogion bod cynllunio ar gyfer tywydd garw wedi'i wneud, ond nad oedd hyn wedi'i ffurfioli eto yn gynllun, ac y byddai'r gwaith hwn yn mynd law yn llaw â'r gwaith 'parc digidol' a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ddiweddar. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno maes o law.

## **NODWYD.**

### **8. Cofrestr Risg**

Roedd y Gofrestr Risg ddiweddaraf ynghlwm i'r Aelodau ei hystyried, ac a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid oedd ar absenoldeb salwch. Dymunodd yr Aelodau yn dda iddo. Dangosodd yr adroddiad mai prin oedd y newid. Fodd bynnag, yn y dyfodol, byddai'r gofrestr yn cael ei chyflwyno mewn fformat gwahanol yn dilyn cyflwyniad gan yr Archwilydd Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at absenoldeb salwch rhai o'r uwch aelodau o staff gan ddweud y gellid rheoli hyn yn y tymor byr, ond pe bai'r absenoldebau hyn yn parhau yn y tymor hwy, y byddai gofyn gwneud trefniadau eraill. Awgrymwyd y dylid ehangu'r diweddariad ar y camau o ran Risg 17 i amlygu hyn.

Yn olaf, roedd un Aelod o'r farn, gan nad oedd pob Aelod yn eistedd ar bob Pwyllgor nad oeddent yn derbyn yr holl bapurau ac felly yn colli gwybodaeth benodol. Awgrymwyd y byddai derbyn copïau electronig o agendâu yn helpu, a bod y rhai ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn cael eu dosbarthu i bawb. Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno.

## **NODWYD.**



9. **Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**  
**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

